**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Iau, 19 Medi 2024 am 2.00 pm.

**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr Gwyneth Ellis, Bobby Feeley a Hugh Irving

**HEFYD YN BRESENNOL**

Ymgynghorydd Cyfreithiol (NF), Uwch Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddog Trwyddedu (ES) ac Uwch Weinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Bobby Feeley yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol. Roedd gweithdrefnau'r gwrandawiad wedi eu hanfon ynghynt at bawb ac roedd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu ar gael yn y cyfarfod.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

## 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – ELLIS'S BAR, 42 - 44 WATER STREET, Y RHYL

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â -

(i) chais a dderbyniwyd gan Mr. Leigh Wright a Mrs. Christine Wright i amrywio Trwydded Eiddo presennol drwy gael gwared ar yr adeilad yng nghefn yr eiddo i greu gardd gwrw yn ei le yn Ellis's Bar, 42-44 Stryd y Dŵr, Y Rhyl (Atodiad A yr adroddiad) (cynllun wedi'i ddosbarthu yn y cyfarfod),

(ii) roedd yr Ymgeisydd hefyd wedi cynnig dim cerddoriaeth yn yr ardd gwrw ar ôl 11pm a theledu cylch caeëdig/staff drws yn monitro'r ardd gwrw ar ôl 11pm ynghyd â gosod ail ddrws ar yr ardd gwrw i atal sŵn,

(iii) mae'r Drwydded Eiddo presennol (Atodiad B yr adroddiad) yn awdurdodi darpariaeth gweithgareddau trwyddedadwy rhwng 09.00 i 04.00 dydd Llun – dydd Sul,

(iv) mae saith sylw ysgrifenedig wedi'u derbyn gan "Unigolion Eraill" mewn ymateb i'r rhybudd cyhoeddus angenrheidiol, ac maent yn ymwneud yn bennaf ag aflonyddwch posibl yn sgil sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a niwsans

cyhoeddus (Atodiad C yr adroddiad), ynghyd â lluniau y cyfeirir atynt mewn un sylw (Atodiad D yr adroddiad),

(v) mae'r ymgeisydd wedi ymgysylltu gyda Heddlu Gogledd Cymru ac adain Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor cyn cyflwyno eu cais ac mae'r ddau Awdurdod Cyfrifol wedi cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw sylwadau na gwrthwynebiad yn ymwneud â'r cais (Atodiad E yr adroddiad),

(vi) cynigiwyd proses gyfryngu i bob parti sy'n ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, ond ni fu modd dod i unrhyw gytundeb ffurfiol. Yn rhan o'r broses gyfryngu, cynigiodd yr Ymgeisydd nifer o addasiadau i'r cais, megis codi sgriniau rhwystr a chau'r ardd gwrw ar ôl 11pm. Fe gyflwynodd ei asiant ddatganiad i'r "Unigolion Eraill" (Atodiad F yr adroddiad) hefyd. Cafwyd un sylw arall gan "Unigolyn Arall" yn cadarnhau nad oedd yr addasiadau arfaethedig yn mynd i'r afael â'u pryderon (Atodiad G yr adroddiad),

(vii) yr angen i ystyried y Cais gan ystyried Canllaw a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor; deddfwriaeth berthnasol arall a sylwadau perthnasol a dderbyniwyd, ac

(viii) yr opsiynau sydd ar gael i'r Is-bwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

Darparodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu grynodeb o'r adroddiad a ffeithiau'r achos.

Cafodd cynllun oedd yn cyd-fynd â'r cais a gafodd ei adael allan o'r adroddiad ei ddosbarthu yn y cyfarfod.

CAIS YR YMGEISYDD

Roedd yr Ymgeisydd, Mr. Leigh Wright yn bresennol i gefnogi'r cais ac roedd yn cael ei gynrychioli gan y Cwnsler Brett Williamson, Linenhall Chambers, Caer. Roedd Rheolwr Bar yr Ymgeisydd hefyd yn bresennol fel arsylwr.

Cyfeiriodd Mr. Williamson at yr Ymgeisydd fel rhywun sydd wedi bod yn berchennog busnes ers amser maith sydd yn adnabyddus yn lleol ac sydd ag enw da am redeg eiddo trwyddedig yn Y Rhyl. Rhoddwyd eglurhad bod Ellis's Bar yn gweithredu fel clwb nos ar hyn o bryd gydag oriau trwyddedig tan 4.00am, ac roedd adeilad yng nghefn yr eiddo yn gweithredu fel Hidden hefyd tan 4.00am a fyddai'n parhau petai'r cais yn aflwyddiannus. Serch hynny, roedd yr Ymgeisydd yn dymuno trosi rhan o gefn yr adeilad mewn i ardd gwrw gan gael gwared ar y to a gosod byrddau a chadeiriau gyda'r bwriad o'i droi yn raddol o glwb nos i far i deuluoedd a phlant o ddydd i ddydd, a chynlluniau at y dyfodol i greu cegin gyda'r posibilrwydd o weini bwyd.

Roedd nifer o gonsesiynau wedi cael eu cynnig yn rhan o'r broses gyfryngu ac mae'r ymatebion a roddwyd i'r materion/pryderon a godwyd i'w gweld isod -

- byddai'r ardd gwrw yn cau'n llwyr am 11pm a byddai'r cwsmeriaid yn cael cais i adael

- byddai cerddoriaeth cyn 11pm yn cael ei reoli, byddai'r unedau sain presennol ar gyfer defnydd mewnol yn cael eu disodli gydag uned sain addas gan chwarae cerddoriaeth yn y cefndir
- roedd yna awgrym ar un adeg am gerddoriaeth fyw er mwyn lliniaru'r sŵn o'r prif adeilad ac y byddai set o ddrysau dwbl yn cael eu gosod
- rhoddwyd eglurhad bod y cyfeiriad at beidio â chaniatáu ysmygu oherwydd y byddai'n fan cyhoeddus amgaeedig yn anghywir, a byddai ysmygu yn cael ei ganiatáu pan fyddai'r to'n cael ei dynnu. Serch hynny, byddai'n cael ei reoli'n llym yn awtomatig yn ôl rheoliadau ar wahân sydd yn rheoli ysmygu mewn mannau cyhoeddus yn yr awyr agored.
- er mwyn mynd i'r afael â phryderon preifatrwydd i eiddo preswyl, gallai sgriniau gael eu codi er mwyn lleihau'r hyn y gellri ei weld drwy ffenestri'r llawr uwch
- roedd eisoes yn ofyniad trwyddedu bod staff ar y drws o 10pm bob nos, felly fe fyddai yna berson yn goruchwylio am yr awr olaf yn yr eiddo a byddent yn cael eu cefnogi gan gamerâu teledu cylch caeëdig.

Dywedodd Mr. Williamson fod y cais er mwyn ystyried amrywio Trwydded Eiddo presennol ac nid addasrwydd Deiliad y Drwydded Eiddo neu beidio. Cyfeiriodd at baragraffau 95 a 96 y canllaw statudol oedd yn nodi y dylai sylwadau yn erbyn cais fod yn berthnasol a gyda digon o resymau yn hytrach nag yn annifyr neu i achosi niwsans neu wneud sefyllfa yn waeth. Mae lle i ddeall bod yr Heddlu yn delio â materion y tu allan i'r achosion yma mewn cysylltiad â modd penodol yr oedd sylw wedi cael ei roi.

Yn olaf, diolchodd Mr. Williamson i'r Is-bwyllgor am y cyfle i gyflwyno'r achos ac roedd yr Ymgeisydd yn croesawu'r cyfle i ateb cwestiynau'r Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r Ymgeisydd a bu iddo ymateb fel a ganlyn -

- y bwriad oedd newid model busnes yr eiddo er mwyn symud i ffwrdd o thema clwb nos, a chadarnhaodd bod y cynllun yn golygu cael gwared ar y llawr dawnsio presennol, gyda'r bwriad o ddarparu mwy o gerddoriaeth fyw a chwaraeon yn y blaen,
- roedd y cynnig i greu gardd gwrw yn golygu cael gwared ar yr adeilad yng nghefn yr eiddo a adeiladwyd yn 2000 fel estyniad i ehangu'r busnes ar y pryd; petai wedi cael ei ddefnyddio byddai wedi creu sŵn yn y gorffennol,
- roedd y cynlluniau'n cynnwys cael gwared ar yr unedau sain a fyddai'n cael eu symud 44 troedfedd ymhellach i ffwrdd, ac nid oedd unrhyw gynigion am gerddoriaeth yn yr ardd gwrw,
- byddai'r model busnes newydd ar gyfer cwsmeriaid gwahanol, a'r bwriad oedd cau'r ardd gwrw am 11pm yn sgil diogelwch, cost a thuedd am sŵn ar ôl yr amser hwnnw. Nid oedd bod ar agor tan 11pm yn creu'r lefel o sŵn gan gwsmeriaid yn hwyrach yn y nos gan nad yw cwsmeriaid cyn 11pm yn dueddol o fod yn rhy swnllyd,

Fe eglurodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu fod y cynllun yn ffurfio rhan o'r Drwydded Eiddo ac roedd y cynigion i newid gosodiad yr eiddo yn sylweddol yn golygu bod angen cymeradwyaeth. Nid oedd cynnig i gynnal unrhyw weithgareddau trwyddedadwy yn yr ardd gwrw.

SYLWADAU GAN AWDURDODAU CYFRIFOL

Cadarnhaodd Heddlu Gogledd Cymru ac adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau i'r cais (Atodiad E yr adroddiad).

SYLWADAU GAN UNIGOLION ERAILL

Derbyniwyd saith o sylwadau ysgrifenedig gan Unigolion Eraill (Atodiad C yr adroddiad) ac roeddynt yn ymwneud yn bennaf â sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans cyhoeddus.

Roedd dau o'r rhai a gyflwynodd sylwadau yn bresennol - Ms. Jacqueline Mcsharry a Mr. Gareth Morris. Dywedodd Ms. Mcsharry ei bod hi hefyd yn siarad ar ran eraill pan gyflwynodd hi ei sylwadau ysgrifenedig.

Rhoddodd Ms. Mcsharry fanylion dros ei gwrthwynebiad i amrywio'r cais a chreu gardd gwrw ar y sail y canlynol –

- ymyriad ar ei phreifatrwydd hi a chymdogion agos gerllaw a fyddai'n edrych allan dros yr ardd gwrw. Dim ond ar ôl gwrthwynebiad yr oedd y cynnig i osod sgriniau wedi'i grybwyll, ac nid oedd pryder ymlaen llaw.
- pryderon am sŵn, roedd yr ymateb ysgrifenedig gan yr Ymgeisydd yn cyfeirio at ddisgwyliad y byddai cwsmeriaid yn gorfod gadael yr ardd gwrw erbyn 11pm, ond heddiw dywedodd y byddent yn gofyn iddynt adael, ac nid oeddynt yn hyderus y byddai hyn yn cael ei fonitro,
- llygredd mwg, cafwyd eglurhad y byddai ysmygu yn cael ei ganiatáu yn yr ardd gwrw ac roedd yna bryderon difrifol ynglŷn ag effaith hynny ar breswylwyr cyfagos, roedd nifer ohonynt yn ddiamddiffyn i effeithiau mwg,
- roedd sŵn wedi bod yn broblem gyson dros 13 mlynedd a oedd yn cael effaith ddifrifol ar breswylwyr, a dim ond am gyfnod byr yr oedd unrhyw seibiant yn dilyn cwyn am sŵn,
- rhagor o gwynion am sŵn cyffredinol o'r lleoliad, a'r oriau a ganiateir i werthu alcohol o dan y Drwydded Eiddo bresennol,
- nid oedd rhai preswylwyr yn ymwybodol o'r cais tan fod y dyddiad cau ar gyfer sylwadau wedi mynd heibio, ac roeddynt wedi methu eu cyfle i gyflwyno gwrthwynebiadau,
- pryderon am yr effaith ar les preswylwyr petai'r cais yn cael ei gymeradwyo.

O ystyried hanes blaenorol, nid oedd gan Ms. Mcsharry unrhyw hyder y byddai'r sŵn o'r ardd gwrw yn cael ei reoli, ac yn ogystal â'r ymyriad ar ei phreifatrwydd, roedd sŵn gan gwsmeriaid, cerddoriaeth a llygredd mwg yn elfennau nad oedd modd eu rheoli.

Gan ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd Ms. Mcsharry er y byddai'r cynnig i osod sgriniau yn helpu gyda'r ymyriad ar ei phreifatrwydd, roedd yna gymdogion eraill yn edrych drosodd, felly byddai angen gosod sgriniau i bawb. Ni fyddai sgriniau yn lleihau sŵn na mynd i'r afael â llygredd mwg beth bynnag.

Ymatebodd yr Ymgeisydd a'i gynrychiolydd i rai o'r materion wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau a phryderon a godwyd fel a ganlyn -

- cadarnhawyd nad oedd bwriad i amrywio oriau trwyddedu'r eiddo (9.00am – 4.00am) sydd ar agor rhwng 10pm – 3.30am ar hyn o bryd,
- y gobaith yw y byddai creu gardd gwrw yn cynorthwyo i symud yn raddol o economi hwyr y nos i fod yn dafarn gydag oriau agor wrth symud ymlaen a fyddai'n dibynnu ar lwyddiant pontio i fasnachu yn ystod y dydd,
- er mwyn lliniaru'r pryderon sŵn byddai'r gerddoriaeth yn yr ardal honno yn dod i ben am 11pm yn hytrach na 4am a'r cynnig oedd chwarae cerddoriaeth yn y cefndir,
- byddai Iechyd yr Amgylchedd yn parhau i fonitro cwynion, ond gallai amod yn ymwneud â lefelau sŵn gael ei ystyried petai yna bryderon,
- roedd yr adeilad cefn wedi bod ar gau ers rhyw 6/7 wythnos yn sgil gostyngiad mewn masnach [gwrthododd Ms Mcsharry y datganiad hwnnw, gan ddweud bod y man amgaeedig yn chwyddo'r sŵn ac nid oedd wedi bod ar gau gan fod cerddoriaeth wedi bod yn uchel dros yr ychydig benwythnosau diweddar].

Fe ymatebodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol i gwestiwn gan Aelod gan ddweud nad oedd ysmygu yn weithgaredd trwyddedadwy, ac felly nid oedd yn fater i Aelodau ei ystyried wrth ddod i benderfyniad. Fe ychwanegodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu fod deddfwriaeth ysmygu yn cael ei orfodi gan Safonau Masnach.

DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD

Yn ei ddatganiad terfynol, roedd Mr. Williamson yn cydnabod yr emosiwn cryf gan breswylwyr cyfagos a dywedodd fod yr Ymgeisydd yn deall y problemau, ac er nad oedd hi'n bosibl mynd i'r afael â phob pryder, roedd yn gobeithio lliniaru rhywfaint ar y pryderon gyda'r cynnig o sgriniau preifatrwydd, oriau diwygiedig a'r newid yn y modd yr oedd y busnes yn gweithredu a fyddai meddai o, o fudd i'r preswylwyr agosaf na'r hyn oedd ar waith ar hyn o bryd.

GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS

Ar y pwynt hwn (2.45pm), daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben i bawb arall, ac aeth yr Is-Bwyllgor Trwyddedu ati i ystyried y cais mewn sesiwn breifat.

PENDERFYNIAD A'R RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD caniatáu'r cais i Amrywio'r Drwydded Eiddo fel yr amlinellir yn y cais, gyda'r amodau ychwanegol canlynol -

- ni ellir cynnal adloniant wedi'i reoleiddio yn yr ardal awyr agored y tu hwnt i 11pm,
- rhaid i staff drws SIA achrededig fod ar y safle yn monitro'r ardal awyr agored tra'i fod ar agor i gwsmeriaid, a dylent gynorthwyo pan fo angen i fonitro niwsans sŵn sy'n cael ei achosi gan gwsmeriaid yn yr ardal awyr agored,
- mae'n rhaid i deledu cylch caeëdig fod yn weithredol yn yr ardal awyr agored pan fydd ar agor i gwsmeriaid,

- rhaid i ail ddrws gael ei osod ym mhwynt cyrraedd/gadael yr ardal awyr agored fel y manylir yng nghynllun arfaethedig yr ardal trwyddeddadwy amrywiol.

Fe gyfleodd y Cadeirydd beth oedd penderfyniad yr Is-bwyllgor i bob parti oedd yn bresennol ac amlinellodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yr amodau a osodwyd, gan ychwanegu y byddai'r penderfyniad llawn a'r rhesymau manwl yn cael eu cyhoeddi yn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith.

Dyma'r rhesymau'r dros y penderfyniad –

Bod yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried sylwadau gan yr Ymgeisydd a Ms Mcsharry, o'r farn bod yr Amcan Trwyddedu, sef 'atal niwsans cyhoeddus', wedi'i fodloni gan y cais o ystyried mai'r prif bwrpas oedd newid ardal trwyddedadwy dan do yn llwyr i un oedd yn rhannol awyr agored a oedd yn agos at eiddo cyfagos.

Er bod yr Is-bwyllgor yn credu bod yr amcan trwyddedu sef 'atal niwsans cyhoeddus' wedi'i fodloni, roeddynt o'r farn y gallai peryglon o niwsans cyhoeddus oedd yn deillio o niwsans sŵn gael ei liniaru gyda'r amodau ychwanegol y manylir uchod.

Roedd yr Is-bwyllgor yn credu bod ychwanegu amod yn atal adloniant wedi'i reoleiddio rhag cael ei gynnal yn yr ardal awyr agored y tu hwnt i 11pm yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, gan mai dyma fyddai'n achosi'r risg mwyaf o niwsans sŵn o ystyried pa mor agos oedd eiddo'r cymdogion. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn nad oedd hi'n briodol i fynd ymhellach na hyn oherwydd fe ddylai Deiliaid y Drwydded Safle, gyda chymorth staff drws achrededig gyda'r SIA a gweithwyr eraill, allu rheoli'r perygl o sŵn gan gwsmeriaid yn yr ardal awyr agored.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y gofyniad am staff drws achrededig gyda'r SIA i fonitro'r ardal awyr agored yn briodol ac yn gymesur er mwyn hyrwyddo amcanion y drwydded.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod ail ddrws ym mhwynt cyrraedd/gadael yr ardal awyr agored fel y manylir yn y cynllun arfaethedig yn briodol i liniaru'r perygl o niwsans sŵn o'r unedau sain rhag teithio i'r ardal awyr agored, ac felly yn briodol i hyrwyddo'r amcan trwyddedu, sef atal niwsans cyhoeddus.

Roedd rhaid i'r Is-bwyllgor fod â barn realistig am y defnydd arfaethedig o'r eiddo. Y dystiolaeth gerbron yr Is-bwyllgor oedd bod yr Ymgeisydd yn bwriadu symud i ffwrdd o leoliad hwyr y nos i eiddo oedd ar agor yn ystod oriau cynharach oedd yn dangos chwaraeon a cherddoriaeth fyw, gyda'r bwriad maes o law o sefydlu'r lleoliad fel bwyty. Barn yr Aelodau oedd fod y defnydd arfaethedig wedi lleihau'r tueddiad i achosi niwsans cyhoeddus fyddai'n deillio o niwsans sŵn o'i gymharu â defnydd presennol yr eiddo.

Fe soniodd yr Is-bwyllgor nad oedd yr awdurdodau cyfrifol, yn benodol Iechyd yr Amgylchedd wedi gwrthwynebu i'r cais, ac roedd hyn yn fater roedd yr Is-bwyllgor yn rhoi pwyslais arno wrth ddod i benderfyniad.

Er bod yr Is-bwyllgor yn bryderus am y cwynion am sŵn, nid oedd tystiolaeth o'u blaenau am gwynion i'r Awdurdod Trwyddedu nac unrhyw weithred gorfodi ddilynol a gymerwyd gan unrhyw awdurdod cyfrifol. Rhoddodd yr Is-bwyllgor bwyslais ar y ffactor yma, ac yn absenoldeb tystiolaeth o'r fath, nid oedd yn credu ei bod hi'n briodol nac yn gymesur i gymryd gweithred bellach i ffurfio amodau ychwanegol.

Fe nododd yr Is-bwyllgor hefyd y pryderon am lygredd mwg eto nad oedd yn fater iddyn nhw gan nadd yw ysmygu ei hun yn weithgaredd trwyddedadwy. Roedd rheoliadau ynglŷn ag ysmygu mewn mannau cyhoeddus wedi'u gorchuddio a'u gorfodi o dan fframwaith cyfreithiol ar wahân.

Mae'r Is-bwyllgor wedi nodi pryderon am faterion megis preifatrwydd cymdogion cyfagos petai cwsmeriaid o'r eiddo yn gallu gweld i mewn i'w heiddo o'r ardal awyr agored. Nid oedd hwn yn fater oedd yn bodloni un o'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly, nid oedd gan yr Is-bwyllgor y pŵer i ychwanegu amod a fyddai'n golygu bod rhaid i'r Ymgeisydd osod sgriniau amddiffynnol yn yr ardal awyr agored gan mai ychydig iawn/dim effaith ar sŵn fyddai hwn yn ei gael, ac felly ni fyddai'n cynorthwyo i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Serch hynny, roedd Aelodau yn annog yr Ymgeisydd i gymryd camau rhesymol a chymesur megis y rhain tra'n cynnal gweithgareddau trwyddedadwy yn yr ardal awyr agored.

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon y byddai'r amcanion trwyddedu, yn benodol 'atal niwsans cyhoeddus', yn cael ei gefnogi wrth gymeradwyo'r cais yn amodol ar yr amodau ychwanegol a ddisgrifir uchod.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol ar y sail y byddai'n cynnwys datgelu gwybodaeth a fyddai'n ymwneud ag unigolyn a allai dramgwyddo ei breifatrwydd neu'n debygol o dorri Deddf Diogelu Data 1998.*

## 4 DEDDF TRWYDDEDU 2003: ADNEWYDDU TRWYDDED BERSONOL

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn ag -

(i) addasrwydd Deiliad Trwydded Bersonol i barhau i fod â Thrwydded Bersonol yn dilyn euogfarn ym mis Mawrth 2024 am drosedd berthnasol o dan Atodiad 4 Deddf Trwyddedu 2003;

(ii) y pwerau a roddir ar Awdurdodau Trwyddedu i ohirio (am hyd at 6 mis) neu ddiddymu Trwydded Bersonol pan mae unigolyn sydd â Thrwydded Bersonol wedi cael ei ganfod yn euog o "drosedd berthnasol";

(iii) cyfeiriwyd at hysbysiad ffurfiol Adran 132A a roddwyd, ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan Ddeiliad y Drwydded Bersonol o fewn amserlen o 28 diwrnod;

(iv) yr angen i ystyried yr achos gan ystyried Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a Chanllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 gydag unrhyw sylwadau perthnasol a dderbyniwyd, a

(v) gwahoddwyd Deiliad y Drwydded Bersonol i fynychu'r cyfarfod i gefnogi'r adolygiad o'r drwydded ac i ateb cwestiynau'r Aelodau wedi hynny.

Roedd Deiliad y Drwydded Bersonol yn bresennol i gefnogi'r adolygiad o'i drwydded ac roedd un o'i weithwyr gydag o yr oedd wedi galw fel tyst.

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu yr adroddiad a ffeithiau'r achos.

Dywedodd Deiliad y Drwydded Bersonol ei fod wedi cael ei gosbi am ei weithredoedd ac roedd yr euogfarn wedi cael effaith andwyol sylweddol ar redeg ei fusnes o ddydd i ddydd. Roedd wedi dweud wrth y Llys fod ganddo Drwydded Bersonol ac roedd y Llys wedi dweud y byddent yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu, a dyna pam na wnaeth o hynny'n uniongyrchol. Fe eglurodd beth oedd y digwyddiadau a arweiniodd at y digwyddiad, a'r amgylchiadau lliniarol a oedd eisoes wedi cael eu hystyried gan y Llys oedd wedi arwain at ddedfryd fyrrach. Yn olaf, fe roddodd sicrwydd ei fod yn Ddeiliad Trwydded Bersonol cyfrifol, roedd ei fusnesau'n cael eu rhedeg yn dda heb unrhyw broblemau, a gofynnodd bod hynny'n cael ei ystyried wrth ddod i benderfyniad. Gan ymateb i gwestiynau, fe ymhelaethodd ar ei fusnes a gweithredu eiddo trwyddedig.

Gofynnodd yr Aelodau rhagor o gwestiynau am y digwyddiad, yr euogfarn ddilynol a'r rheswm y tu ôl i weithredoedd Deiliad y Drwydded Bersonol. Fe ymatebodd Deiliad y Drwydded Bersonol i'r cwestiynau hynny a galwodd ar ei dyst a gefnogodd ei fersiwn o o'r digwyddiadau mewn cysylltiad â'r diwrnod cyn y drosedd a'r amgylchiadau lliniarol a gyflwynwyd yn yr achos yma. Dywedodd y tyst fod teledu cylch caeëdig a chofnodion diogelwch wedi cael eu cyflwyno fel tystiolaeth ac roedd y rhain wedi cael eu derbyn gan y Llys. Pan ofynnwyd pam nad oedd o wedi gwneud sylwadau o fewn y 28 diwrnod a ganiateir o dan hysbysiad Adran 132A, fe eglurodd Deiliad y Drwydded Bersonol ei fod wedi cael rhybudd a chyngor y byddai'r mater yn mynd gerbron Pwyllgor i'w ystyried, a chadarnhaodd ei bresenoldeb i egluro'r sefyllfa. Fe ymddiheurodd nad oedd wedi llwyr ddeall y broses ac nad oedd wedi cyflwyno sylwadau ymlaen llaw.

O ran datganiad terfynol, gofynnodd Deiliad y Drwydded Bersonol i Aelodau ystyried ei gyflwyniad ac ystyried ei adolygiad o'r drwydded yn ffafriol. Fe dynnodd sylw at oblygiadau difrifol i'w fusnesau petai ei Drwydded Bersonol yn cael ei hadolygu ac fe ailadroddodd fod ei fusnesau trwyddedig yn cael eu rhedeg yn dda ac nad oedd yna unrhyw broblemau.

Ar y pwynt hwn (3.45pm), daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben i bawb arall, ac aeth yr Is-Bwyllgor Trwyddedu ati i ystyried yr achos mewn sesiwn breifat.

**PENDERFYNIAD A'R RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *cynnig na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r Drwydded Bersonol.*

Fe gyfleodd y Cadeirydd beth oedd penderfyniad yr Is-bwyllgor i bob parti oedd yn bresennol ac amlinellodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol y camau nesaf, gan ychwanegu y byddai'r penderfyniad llawn a'r rhesymau manwl yn cael eu cyhoeddi yn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith.

Dyma'r rhesymau'r dros y penderfyniad –

Roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu wedi ystyried sylwadau ar lafar a'r dystiolaeth a ddarparwyd yn y rhaglen a'r pecyn adroddiadau.

Fe nododd yr Is-bwyllgor yr eglurhad a roddwyd am yr amgylchiadau a arweiniodd at yr euogfarn a bod yr eglurhad yma wedi cael ei gadarnhau gan dyst. Felly, rhoddodd yr Is-bwyllgor bwyslais ar dystiolaeth y tyst gan dderbyn yr eglurhad a roddwyd iddynt a ystyriwyd yn elfen lliniaru sylweddol o blaid Deiliad y Drosedd Bersonol.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor fod Deiliad y Drwydded Bersonol wedi rhoi gwybod i'r Llys o'i statws fel Deiliad Trwydded Bersonol fel y bo angen. Ni chawsant dystiolaeth yn groes i hyn felly roeddynt yn teimlo nad oedd ganddynt ddewis ond dod i'r casgliad yma gan ei fod yn dyst gonest a chredadwy.

Roedd yr Is-bwyllgor yn bryderus na ddywedodd Deiliad y Drwydded Bersonol wrth yr Awdurdod Trwyddedu am ei euogfarn. Mae Aelodau'r Is-bwyllgor yn disgwyl i ddeiliad y drwydded wybod beth yw eu cyfrifoldebau a'u cymryd nhw'n ddifrifol, serch hynny, er eu bod yn disgwyl iddo wybod y protocol cywir, roeddynt yn derbyn yr eglurhad bod y Llys wedi dweud wrtho y bydden nhw yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu, ac felly nad oedd angen iddo fo wneud.

Nid oedd yr Is-bwyllgor yn credu bod yr eglurhad a roddwyd gan Ddeiliad Trwydded Eiddo o'i arést yn gwbl gyson â'r dystiolaeth a ddarparwyd. Serch hynny, nid oeddynt yn credu bod hyn wedi effeithio ar unrhyw beth ac ni effeithiodd ar eu penderfyniad cyffredinol.

O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn credu bod Deiliad y Drwydded Eiddo yn parhau'n addas i fod â Thrwydded Bersonol ac nad oedd hi'n gymesur i gymryd unrhyw weithred bellach mewn cysylltiad â'i drwydded.

**Y CAMAU NESAF**

Bydd copi o'r hysbysiad am y penderfyniad yn cael ei roi i Heddlu Gogledd Cymru gan yr Awdurdod Trwyddedu fel sy'n ofynnol gan S132A Deddf Trwyddedu 2003.

Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn cael gwahoddiad i roi sylwadau i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn 14 diwrnod ynglŷn ag a ddylai'r drwydded gael ei gohirio neu ei diddymu, gan ystyried yr amcan o atal trosedd ac anrhefn.

Os bydd Heddlu Gogledd Cymru yn rhoi eu sylwadau i'r Awdurdod Trwyddedu fel y disgrifir uchod o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad maen nhw'n derbyn yr hysbysiad,

byddai'r Is-bwyllgor Trwyddedu yn cynnal cyfarfod arall i benderfynu ar addasrwydd Deiliad y Drwydded Eiddo i fod â Thrwydded Bersonol.

Os na fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn derbyn sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru o fewn 14 diwrnod, fe fydd yn bwrw ymlaen i wneud penderfyniad terfynol ar sail y dystiolaeth o'i flaen.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.10pm.